EGLWYS ANNIBYNNOL MINNY STREET, CAERDYDD

POLISI CYNNWYS LLUNIAU NEU WYBODAETH BERSONOL YNG NGHYHOEDDIADAU'R EGLWYS

1. DOSBARTHIAD

Dosberthir y Polisi hwn fel a ganlyn,

1.1 Yn y Canllawiau Golygyddol a gyflwynir i olygyddion *Yr Aelod*

1.2. Golygydd Gwefan yr Eglwys

1.3 Ymhlith aelodau'r Eglwys.

2. ADOLYGU

Adolygir y Polisi o fewn 18 mis ac yn achlysurol wedi hynny.

3. DIFFINIADAU

3.1	Plant a phobl ifanc:	Hyd at 18 mlwydd oed
3.2	Oedolion:	Dros 18 mlwydd oed
3.3	Cyhoeddiadau a argreffir :	*Yr Aelod,* testun a gynhwysir yn enw'r Eglwys mewn cyhoeddiadau megis *Y Tyst, Y Dinesydd* ond ac eithrio'r Adroddiad Blynyddol.
3.4	Gwybodaeth Bersonol:	Cyfeiriad post llawn, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn

4. LLUNIAU A GWYBODAETH BERSONOL MEWN CYHOEDDIADAU A ARGREFFIR

4.1 Unigolion

4.1.1 Rhaid i'r person sydd am ddefnyddio llun sicrhau caniatâd ysgrifenedig oedolyn neu riant/gwarcheidwad (yn achos plentyn neu bobl ifanc).

4.1.2 Nid oes rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio gwybodaeth bersonol yn yr Adroddiad Blynyddol nac yn *Yr Aelod* a argreffir. Rhaid hepgor y manylion hyn pan drosglwyddir yr wybodaeth i Wefan yr Eglwys.

4.2 Lluniau torfol

Rhaid rhoi rhybudd ar lafar fod llun ar fin cael ei dynnu a allai ymddangos mewn cyhoeddiad. Rhaid rhoi cyfle i unrhyw un na fyn ymddangos yn y llun symud o'r neilltu. Awgrymir geiriad megis, 'Rydw i ar fin tynnu llun a allai ymddangos mewn cyhoeddiad. Os nad ydych am fod ynddo, a wnewch chi symud o'r neilltu nawr os gwelwch yn dda?'

5. LLUNIAU A GWYBODAETH BERSONOL AR WEFAN YR EGLWYS

5.1 Cyffredinol

Ni chynhwysir llun na gwybodaeth bersonol unrhyw unigolyn ar Wefan yr Eglwys beth bynnag fo'i oed.

5.2 Amrywiadau

Llun plant a phobl ifanc

Os dymunir cynnwys llun plentyn, plant neu bobl ifanc ar Wefan yr Eglwys, rhaid glynu at y canllawiau canlynol (a seilir ar argymhellion Undeb yr Annibynwyr),

5.2.1 Ni ddylai'r un llun fod o natur y gellid ei ystyried yn anweddus na chwaith yn awgrymog: ymhob achos, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad y plentyn.

5.2.2 Defnyddir caniatâd rhiant neu warcheidwad ar gyfer cynnwys y llun unwaith yn unig oni bai fod y rhiant neu'r gwarcheidwad wedi cyflwyno hawl ysgrifenedig i'r llun gael ei ddefnyddio heb gyfyngiad.

5.2.3 Wrth gynnwys llun plentyn neu lun o bobl ifanc, dylid osgoi defnyddio enwau'r plant. Ni ddylid defnyddio eu henwau llawn heb ganiatâd ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad.

5.2.4 Dylid defnyddio lluniau o blant mor anaml â phosibl ar Wefan yr Eglwys ac am gyfnod mor fyr â phosibl.

Llun oedolyn

5.2.5 Os dymunir cynnwys llun oedolyn, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig yr oedolyn hwnnw.

5.2.6 Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig pob oedolyn ymhob llun.

5.3 Trosglwyddo caniatâd

Nid yw caniatâd i gynnwys llun mewn cyhoeddiad a argreffir yn cynnwys caniatâd i'w gyhoeddi ar Wefan yr Eglwys: rhaid derbyn caniatâd ysgrifenedig, penodol ar gyfer hynny.

Ymddiriedolwyr Eglwys Minny Street, Caerdydd
Mehefin 2010